

Mae gan ardal tirlithriad Pant-teg - rhan o system fwy o dirlithriadau i'r de-orllewin o Ystalyfera yng Nghwm Tawe - hanes hir o symudiadau tir sy'n dyddio'n ôl i 1897.

Adwaenir Mynydd Allt-y-Grug, sy'n codi'n fawreddog dros Ystalyfera, fel y "mynydd sy'n symud" yn lleol ac mae'r nodwedd 338 metr o uchder yn llawn hen gloddfeydd, chwareli a thwneli diolch i orffennol diwydiannol yr ardal.

Roedd y safle'n gartref i oddeutu 16 gwaith metel, 40 ffwrnais a nifer o lofeydd.

Cofnodwyd bron 30 o dirlithriadau ym Mhant-teg ers y cofnodion cynharaf, ond mae'n debygol bod mwy sydd heb eu cofnodi. Mae ffurf ac amllder y digwyddiadau hyn yn amrywio ond ymddengys fod cyswllt yn aml rhwng glaw trwm ac ansefydlogrwydd.

Mae nifer mawr o adeiladau wedi'u gadael oherwydd tirlithriadau. Daeth hen bentref Pantyffynnon, a oedd yn ardal fwy'r tirlithriadau, yn dref anghyfannedd dros nos pan wnaeth cannoedd o bentrefwyr adael yr ardal yn y 1930au o ganlyniad i symudiad y tir.

Amserlen tirlithriadau a gofnodwyd yn ardal y tirlithriad:

- 1/01/1897 Nodwyd tirlithriad ar fap daearegol.
- 01/01/1946 Pridd yn symud yng ngardd rhif 8 Mount Hill i'r ffordd o ganlyniad i doriad i ddraeniau'r chwarel gerllaw.
- 01/01/1946 71 Mount Hill - pridd yn llithro i'r ffordd.
- 01/02/1951 Clogfeini'n cwmpo o lethrau serth uwchlaw Mount Hill i ardd 39 Heol Graig.
- 01/08/1954 Gwacawyd tri thŷ yn Nhwyncerdinen o ganlyniad i law trwm iawn. Nid yw'n hysbys ai oherwydd llif y mwd neu lifogydd.
- 01/06/1955 Symudiad yn llethr y bryn a'r wal gynnal ar gyffordd Heol yr Eglwys a Heol y Graig - craciau yn y wal gynnal.
- 01/10/1957 Miloedd o dunelli o fwd wedi rhwystro 100m o'r A4068. Priodolwyd y symudiad ar y pryd i ddraenio'r chwarel.
- 02/10/1957 Nodwyd bod craciau yn y wal gynnal y tu ôl i gyffordd 41-49 Heol y Graig/Heol yr Eglwys.
- 01/11/1957 Bygythiad llithriad clogfaen yn 45 Mount Hill.
- 01/12/1959 Digwyddiad sylweddol rhwng rhif 60 a Thafarn y Golden Lion ar Heol y Graig, un llinell traffig ar yr A4068 a tharfwyd ar brif bibell ddŵr 24 modfedd dros 70 llath.
- 01/11/1964 Nodwyd bod clogfaen yn bygwth Pant-teg.
- 01/05/1965 Agorwyd Ffordd Newydd gan yr awdurdod lleol o ganlyniad i dirlithriad mis Rhagfyr 1959.
- 19/12/1965 Ym Mhant-teg, 'roedd gormod o ddŵr arwyneb ac isbridd wedi holi'r pridd a wnaeth gwmpo'. Roedd mwy o glogfeini 'mewn perygl enbyd o

gwympto'. Rhwystrwyd Heol y Graig gan 15 troedfedd o bridd. Roedd peilonau'n gogwyddo ac roedd craciau'n amlwg ar Heol y Graig.

- 01/05/1967 Cynigiodd yr awdurdod lleol brynu 31 o dai yr effeithiwyd arnynt.
- 01/10/1967 Cafwyd symudiad pellach i'r ffordd lle cafwyd difrod blaenorol i'r brif bibell ddŵr.
- 06/11/1967 Gwnaeth y tirlithriadau barhau i ledaenu ac fe'u disgrifiwyd yn 'anwelladwy' mewn cyfarfod mawr. Rhybuddiwyd 40 o dai ei fod yn lle peryglus i fyw. Penderfynwyd ymchwilio i bennu a oedd mesurau adfer yn bosib.
- 21/11/1968 Clogfeini peryglus yn bresennol yn ysgol Pant-teg.
- 01/10/1974 Cwblhawyd cynllun draenio - ni chafwyd unrhyw symudiadau mawr ar ddechrau'r 70au.
- 22/01/1975 Symudiad y tu ôl i 41-48 Pant-teg (Mount Hill). Cafwyd llif sylweddol o ddŵr gan arwain at graciau newydd a symudiad y tu ôl i'r ysgol, ac o ganlyniad i hynny cafodd ei chau.
- 01/09/1975 Gwnaeth dŵr redeg dros wyneb chwarel Pant-teg a suddo gyda'r ddaear, gan goll'i'r system ddraenio.
- 01/06/1979 Cwblhawyd mwy o waith ar y draeniau.
- 01/03/1981 Cafwyd llithriadau bach ger Tafarn y Bush, dim difrod.
- 01/06/1983 Cafodd eiddo gyferbyn â Thafarn y Bush eu dymchwel a chafodd yr ardal ei thirweddu.
- 19/03/1981 Cafwyd dau dirlithriad bach.
- 19/11/1986 Cafwyd cylchlithriad i ben gogleddol Pant-teg, effeithiwyd ar 6 thŷ a gwnaeth llithriad arall effeithio ar y ffordd.
- 22/12/2012 Gwnaeth tirlithriad arall rwystro'r ffordd rhwng Tŷ Penygraig a Chapel Pant-teg.
- 27/01/17 Tirlithriad y tu ôl i gartrefi ar Heol Cyfyng a digwyddiad arall yn yr un ardal ym mis Mehefin 2017.